



## 20.

## DWWYNWEN

Dydd Gŵyl:  
Ionawr 25 (m. 460)



Plentyn y llys brenhinol oedd Dwynwen; merch Brychan, brenin a sant a roes ei enw i deyrnas Brycheiniog (yn ne-ddwyrain canolbarth Cymru). Ychydig iawn a wyddom am fywyd Dwynwen, ond o'r 1990au ymlaen daeth Santes Dwynwen i fod megis nawddsant cariadon Cymru, a hynny'n benodol oherwydd un hen goel amdani.

Person da a rhinweddol oedd Santes Dwynwen, wedi llwyr ymroi i droedio yn ôl traed Iesu Grist. Honnir, fel prawf o ddyfnder ei hymrwymiad i Grist, i Dwynwen gerdded y tonnau, yr holl ffordd dros fôr Iwerydd, i ddianc rhag llid Maelgwn Gwynedd. Er na ellir amau ei hymrwymiad i Grist, dylid nodi bod yna ymrwymiad arall: roedd Dwynwen dros ei phen a'i chlustiau mewn cariad â Maelon Dafodrill. Er mor fawr a dwfn y serch oedd rhyngddynt, rhyngddynt hefyd safai ymrwymiad Dwynwen i Dduw, a'i hymdeimlad hithau o'i alwad yntau arni i'w wasanaethu. O'r herwydd, er mawr loes i Maelon, trodd Dwynwen oddi wrtho. Trodd serch yn atgasedd, ac o bosibl yn drais, 'gan ddwyn malais arni yng ngŵydd y byd'.<sup>(49)</sup>

Ffodd Dwynwen i berfedd tywyll coedwig gyfagos, â'i chalon yn torri. Wedi bron ymlâdd gweddïodd ar i Dduw ei rhyddhau o'i chariad at Maelon. Gweddïodd yn daer nes blino'n llwyr a syrthio i drwmgwsg. Ym mhlygion ei breuddwydion, daeth gweledigaeth: yfodd Dwynwen o ffiol, a'r llymaid hwnnw yn dileu ei chariad at Maelon. Yfodd Maelon hefyd o'r ffiol, a'r 'moddion' yn ei droi yn dalp o iâ. Gwnaeth Dwynwen dri chais gan Dduw. Yn gyntaf, gofynnodd ar i Dduw ddadmer Maelon.

Yn ail, ar i Dduw ateb ei gweddïau dros gariadon nes peri iddynt gael mwynhau dedwyddwch oes os oeddent yn caru yn gywir o'r galon, neu yn cael eu rhyddhau o'u nwyd a'u traserch. Yn drydydd gofynnodd am beidio gorfod priodi byth.

Ar ôl i'w dymuniadau gael eu gwireddu, ymneilltuodd Dwynwen i Ynys Llanddwyn, ac yno y bu am weddill ei hoes. Am ganrifoedd lawer, bu'r si a'r sôn am stori Dwynwen yn tynnu cariadon i Landdwyn i ddeisyf ei chymorth i dynhau neu ddatod cwlwm cariad. Yn agos i Eglwys Llanddwyn mae ffynnon a elwir 'Crochan Dwynwen'. Credir bod symudiad y pysgod yn y ffynnon yn gymorth i'r hon neu'r hwn sydd rhwng dau feddwl am briodi i ddewis mentro ai peidio. Mae'n debyg i Dafydd ap Gwilym weld delw aur o Dwynwen. Yn ddigywilydd braidd, gofynnodd y bardd i'r santes ei gynorthwyo i ennill calon Morfudd, a oedd eisoes yn briod. Byddai'n ddiddorol cael cofnod o ymateb Dwynwen i'r fath ofyn!

*Dwynwen deigr arien degwch,  
Da y gwyr o gôr fflamgwyr fflwch  
Dy ddelw aur diddoluriau  
Digion druain ddynion draw.  
Dyn a wyllo, gloywdro glân,  
Yn dy gôr, Indeg eirian,  
Nid oes glefyd na bryd brwyn  
A êl ynddo o Landdwyn.*

*Dy laesblaid yw dy lwysblwyf,  
Dolurus ofalus wyf.  
Y fron hon o hoed gordderch  
Y sydd yn unchwydd o serch,  
Hirwayw o sail gofeiliaint,  
Herwydd y gwn, hwn yw haint,  
Oni chaf, o byddaf byw,  
Forfudd, llyna oferfyw.*

*Gwna fi yn iach, weddusach wawd,  
O'm anwychder a'm nychdawd.  
Cymysg lateirwydd flwyddyn  
â rhadau Duw rhod a dyn.  
Nid rhaid, ddelw euraid ddi-lyth,  
Yt ofn pechawd fethlgnawd fyth.  
Nid adwna, da ei dangnef,  
Duw a wnaeth, nid ai o nef.  
Ni'th wyl mursen eleni  
Yn hustyng yn yng â ni.  
Ni rydd Eiddig ddig ddygnbwyll  
War ffon i ti, wry ei phwyll.*

Yn raddol, collwyd gfael ar Dwynwen (er i'r arferion ynglŷn â Dwynwen gael eu cadw gan bobl Môn yn ddi-dor). Dwynwen bellach yw nawddsant cariadon Cymru. Er cystal hyn, rhaid cydnabod bod Dwynwen, fel Ffolant Sant, wedi diflannu bron yn llwyr o dan bentwr o galonnau coch, cardiau cyfarch a thorchau blodau! Daw un adnod o Ganiad Solomon â ni'n nes o lawer at neges a her Dwynwen na'r holl flodau, cardiau a chalonnau: 'Canys cariad sydd gryf fel angau' (Caniad Solomon 8:6 *BWM*). Nid peth dof a sentimental yw cariad Duw; cadarn ydyw. Gall wynebu, a goresgyn, unrhyw a phob peth. Y cariad hwn yw hanfod ein ffydd ac echel ein gobaith: 'y mae gennym fuddugoliaeth lwyr trwy'r hwn a'n carodd ni' (Rhufeiniaid 8:37 *BCND*). Wrth gofio a dathlu hyn, byddem go iawn yn cofio a dathlu Santes Dwynwen.

## **MYFYRDOD**

Ymlonyddwch. Treuliwch eiliad neu ddwy yn syml dawel gan ganolbwyntio ar anadlu'n ddwfn a phwylllog. Mae Duw wrth law. Gofynnwch iddo eich helpu i ymdawelu, ac i ymddiried eich hunan i'w ofal.

Beth yw ystyr 'cariad'?

Wrth eu hannog i garu'i gilydd, beth oedd dymuniad Iesu ar gyfer ei ddisgyblion? Sut gall cariad rhwng dau adlewyrchu cariad yr Hwn a garodd y byd 'fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab, fel na choller pwy bynnag a greddo ynddo ef, ond caffael ohono fywyd tragwyddol' (Ioan 3:16)?

Yng nghwmni Duw, ystyriwch yn fyfyrgar y pethau hyn.

## Y GAIR

*Yr wyf wedi dod i'm gardd, fy chwaer a'm priodferch; cesglais fy myrr a'm perlysiâu, a bwyta fy niliau a'm mêl, ac yfed fy ngwin a'm llaeth. Gyfeillion, bwyteuwch ac yfwch, nes meddwi ar gariad. Yr oeddwn yn cysgu, ond â'm calon yn effro, Ust! Y mae fy nghariad yn curo: "Agor imi, fy chwaer, f'anwylyd, fy ngholomen, yr un berffaith yn fy ngolwg, oherwydd y mae fy ngwallt yn diferu o wlith, a'm barf o ddefynnau'r nos." Ond yr wyf wedi diosg fy mantell; a oes raid imi ei gwisgo eto? Yr wyf wedi golchi fy nhraed; a oes raid imi eu maeddu eto? Pan roes fy nghariad ei law ar y glicied, yr oeddwn wedi fy nghynhyrfu trwof. Codais i agor i'm cariad, ac yr oedd fy nwylo'n diferu o fyrr, a'r myrr o'm bysedd yn llifo ar ddolennau'r clo.*

**Caniad Solomon 5:1-5 (BCND)**

## BENDITH

Boed i gariad Duw lifo ynoch.

Boed i gariad Duw lifo ohonoch.

Boed i chi ymwybod â chariad eraill,  
ac efallai un arall cwbl arbennig, ond yn anad dim,  
boed i chi ymdeimlo cariad Duw yn eich cynnal a'ch cadw,  
nawr a hyd byth.